Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

This letter is also available in Welsh

Kathryn Matthews
Ysgol Gymraeg Cwm Derwen
Beech Grove
Oakdale
Coed Duon
NP12 0JL

23/07/2025

Annwyl Kathryn Matthews

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'i harolygiad craidd ym mis Tachwedd 2023. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad

## Ffocws yr ymweliad

## Cynllunio ar y cyd i wella medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig disgyblion

- Mae arweinwyr wedi mynd ati'n ddyfal i osod disgwyliadau clir ar gyfer datblygiad medrau ysgrifennu a mathemateg disgyblion drwy lunio cynlluniau manwl sy'n nodi dilyniant yn adeiladol. O ganlyniad, mae gan athrawon ddealltwriaeth gytûn o'r camau nesaf yn natblygiad bob disgybl.
- Mae athrawon wedi cael hyfforddiant perthnasol ar addysgeg effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb yn safon yr addysgu ar draws yr ysgol.
- Mae athrawon yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwerthuso cynnydd disgyblion ac effaith eu cynlluniau a'r addysgu. Maent yn gwirio i ba raddau mae disgyblion yn gwneud cynnydd tra'n cael profiad o ysgrifennu mewn amryw ddulliau, ac ymarfer eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau go-iawn.
- Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymarfer eu medrau sylfaenol yn rheolaidd. Maent yn rhannu nod eu gweithgareddau, a'r meini prawf ar gyfer llwyddiant yn glir.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o’r camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu hysgrifennu ac yn cryfhau eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. Golyga hyn fod llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

## Gwella ansawdd a darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf

- Mae arweinwyr wedi mynd ati’n llwyddiannus i flaenoriaethu datblygu’r ardaloedd allanol a phrofiadau dysgu allanol ar draws yr ysgol. Maent yn cynnal ystod o weithgareddau hunanwerthuso sy’n eu helpu i fyfyrio’n gywir ar effaith y ddarpariaeth ar ddysgu a lles disgyblion.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i staff ymweld ag arfer effeithiol mewn ysgolion eraill er mwyn datblygu’r ddarpariaeth. Mae hyn yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff o sut i ddefnyddio’r ardal allanol i gefnogi cynnydd yn nysgu’r disgyblion.
- Mae staff wedi datblygu’r ardal allanol at ddefnydd y dosbarthiadau ieuengaf yn grefftus. Maent yn cynllunio cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chorfforol mewn cyd-destunau pwrpasol. Drwy hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau’n annibynnol ac yn gwneud cynnydd da yn eu medrau.
- Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae athrawon yn cyd-gynllunio ystod o brofiadau cyfoethog yn yr ardal allanol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mathemateg. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau amrywiol bywyd pob dydd. O ganlyniad i’r profiadau ymarferol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.
- Mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio ochr yn ochr â disgyblion er mwyn modelu medrau, iaith a chymdeithasol yn graff. Ar y cyfan, maent yn hwyluso’r dysgu allanol yn effeithiol gan ymateb gyda chwestiynau buddiol er mwyn herio a chefnogi cynnydd yn nysgu’r disgyblion fel rhan annatod o’u chwarae.
- Mae llais y disgybl yn rhan bwysig o gynllunio datblygiad strategol y ddarpariaeth. Mae’r Cyngor Eco yn cydweithio ar ddatblygu gardd newydd i’r ysgol ac yn trafod eu bwriadau i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i dyfu cynnyrch a defnyddio’r rhain ar y cyd â’r gymuned mewn gwersi coginio.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762394

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol